

**ADRODDIAD RHEOLWR Y GWASANAETHAU GWEINYDDOL A
DEMOCRATAIDD A'R DIRPRWY SWYDDOG MONITRO**

PWNC:

SAFONAU'R GYMRAEG: ADRODDIAD BLYNYDDOL

Ar y 30^{ain} o Fedi 2015, cyhoeddodd y Comisiynydd Iaith Hysbysiad Cydymffurfio i'r Awdurdod yn unol ag Adran 44 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Mae'r Hysbysiad Cydymffurfio yn nodi Safonau'r Gymraeg y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy wrth gyflawni ei fusnes, a'r dyddiadau y mae'r Awdurdod yn gorfod cydymffurfio â'r Safonau.

Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gynhyrchu Adroddiad Blynyddol erbyn y 30^{ain} o Fehefin pob blwyddyn, yn unol â Safonau 158, 164 a 170 o'r Hysbysiad Cydymffurfio, ac mae copi o'r adroddiad hwnnw wedi'i atodi.

ARGYMHELLIAD:

Bod yr Aelodau'n cymeradwyo'r Adroddiad Blynyddol fel cyflwyniad yr Awdurdod i'r Comisiynydd Iaith.

Papurau Cefndir:

Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyhoeddwyd i'r Awdurdod ar y 30^{ain} o Fedi 2015

Hysbysiad Cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg fel y'i amrywiwyd a gyhoeddwyd i'r Awdurdod ar y 23^{ain} o Ionawr 2017

(Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â Janet Evans, Rheolwr y Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd a'r Dirprwy Swyddog Monitro ar 01646 624834, neu drwy e-bostio janete@arfordirpenfro.org.uk)

**AWDURDOD PARC
CENEDLAETHOL ARFORDIR
PENFRO**



**ADRODDIAD BLYNYDDOL
SAFONAU'R GYMRAEG**

Ebrill 2021 – Mawrth 2022

Mae'r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg
hefyd

Gallwn ddarparu'r adroddiad hwn ar ffurfiau eraill hefyd dim ond ichi ofyn.
Cysylltwch â:

Y Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd

Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro

Parc Llanion

Doc Penfro

SA72 6DY

E-bost: janete@arfordirpenfro.org.uk

CRYNODEB GWEITHREDOL

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 yn gosod fframwaith cyfreithiol sy'n rhoi dyletswydd ar yr holl awdurdodau lleol ac Awdurdodau Parc Cenedlaethol yng Nghymru, ynghyd â Gweinidogion Cymru, i gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg.

Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro yn gwbl ymrwymedig i'r egwyddor o ganiatáu i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio eu hiaith ym mhob agwedd ar eu bywydau ac mae'n cydnabod ei gyfrifoldeb i hybu a hwyluso'r defnydd ohoni.

Wrth gydymffurfio â Safonau'r Gymraeg, nod yr Awdurdod yw galluogi ein rhanddeiliaid i ddefnyddio'r iaith (Cymraeg neu Saesneg) y maent fwyaf cyfforddus yn ei defnyddio. Mae'r adroddiad hwn yn nodi sut y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau a bennwyd o dan y Mesur. Mae'r Awdurdod yn cydnabod ei fod wedi gwneud cynnydd ond bod gwelliannau i'w gwneud o hyd.

1. RHAGAIR

- 1.1 Golyga Safonau'r Gymraeg na ddylai Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro drin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg, ac y dylai hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg er mwyn ei gwneud yn haws i bobl ei defnyddio yn eu bywydau beunyddiol.
- 1.2 Yn fras, mae pum maes o Safonau:
- **Cyflenwi gwasanaethau**, sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau, caffael, a hunaniaeth gorfforaethol
 - **Llunio polisi**, sy'n canolbwyntio ar gynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau polisi, a chymryd camau cadarnhaol i hybu'r defnydd o'r Gymraeg
 - **Gweithredol**, sy'n canolbwyntio ar hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg o ran staff yr Awdurdod a gweithgareddau mewnol
 - **Hybu**, sy'n canolbwyntio ar hybu neu hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg yn ehangach
 - **Cadw cofnodion**, sy'n canolbwyntio ar gadw cofnodion ynghylch sut y mae'r Awdurdod yn cydymffurfio â'r Safonau a bennwyd.
- 1.3 Gosodwyd 170 o Safonau ar yr Awdurdod, a phennwyd dyddiad gweithredu cychwynnol o 30 Mawrth 2016. Mae rhestr lawn o'r Safonau y mae gofyn i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy ar ein gwefan ac ar ein mewnwyd ar gyfer staff.
- 1.4 Mae Safonau 158, 164 a 170 yn pennu bod yn rhaid i'r Awdurdod gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 30 Mehefin bob blwyddyn sy'n ymwneud â'r flwyddyn ariannol flaenorol. Dyma'r seithfed adroddiad blynyddol ers cyflwyno'r Safonau, ac mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y cyfnod rhwng 01 Ebrill 2021 a 31 Mawrth 2022.

2. SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU (SAFONAU 1 – 87)

- 2.1 I sicrhau bod yr holl staff yn gwybod am y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, rydym wedi dosbarthu canllawiau ar gyflawni gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan yr holl Reolwyr ac Arweinwyr Timau ddyletswydd i sicrhau bod eu gwasanaethau yn cydymffurfio â'r gofynion.
- 2.2 **Gohebiaeth (Safonau 1 – 7)**
- 2.2.1 Rhoddwyd canllawiau penodol i'r staff ar gyfer ymdrin â gohebiaeth, boed ar bapur neu'n electronig.
- 2.2.2 Mae datganiad safonol wedi'i gynnwys ar bapur pennawd yr Awdurdod a rhoddwyd cyfarwyddyd i staff i'w gynnwys ar negeseuon e-bost.

- 2.2.3 Mae cronfa ddata i gofnodi dewis iaith defnyddwyr gwasanaeth wedi'i gweithredu.
- 2.3 **Ateb y ffôn (Safonau 8 – 22)**
- 2.3.1 Rhoddwyd canllawiau penodol i'r staff ynglŷn ag ateb y ffôn yn ddwyieithog a delio â galwadau ffôn lle mae'r galwr yn dymuno defnyddio'r Gymraeg. Os na all staff eu hunain ddelio â galwad ffôn yn Gymraeg, byddant yn trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr sy'n siarad Cymraeg ddelio â'r mater. Mae negeseuon a recordiwyd ymlaen llaw i ateb galwadau a dderbynnir y tu allan i oriau arferol y swyddfa neu ar gyfer y rhai sy'n galw pan fydd y llinell yn brysur, yn negeseuon dwyieithog, gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf.
- 2.4 **Cyfarfodydd Cyhoeddus (Safonau 24 – 36)**
- 2.4.1 Cyhoeddwyd canllawiau penodol ynghylch trefnu cyfarfodydd, sy'n atgoffa'r holl staff y dylid dosbarthu gwahoddiadau dwyieithog (oni bai bod dewis iaith pob cynrychiolydd eisoes yn hysbys), bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael (os oes angen), a bod yn rhaid i'r holl ddeunydd cyhoeddusrwydd, deunydd ysgrifenedig ac ati y bydd yr Awdurdod yn eu llunio ar gyfer y cyfarfod fod yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.
- 2.4.2 Roedd yn ofynnol i'r Awdurdod, oherwydd y pandemig COVID-19, gynnal pob cyfarfod yr Awdurdod/Pwyllgor (fyddai fel arfer yn 'agored' i'r cyhoedd) ar-lein. Ni allai'r plattform rhithiol gwreiddiol a ddefnyddiwyd hwyluso trafodaeth ddwyieithog, ond ers hynny mae'r Awdurdod wedi symud i Microsoft 365 yn ystod y cyfnod adrodd, a'r gobaith yw y bydd trafodaethau rhwng Llywodraeth Cymru, darparwr y plattform ar-lein a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn hwyluso cyfieithu ar y pryd yn y dyfodol agos.
- 2.5 **Dogfennau, Ffurflenni a Deunydd Cyhoeddusrwydd (Safonau 37 – 51)**
- 2.5.1 Mae'r holl ddatganiadau i'r wasg wedi cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a bydd hyn yn parhau, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal.
- 2.5.2 Mae holl daflenni gwybodaeth yr Awdurdod yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog, gyda'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal. Mae'r canllawiau a gyhoeddwyd yn flaenorol yn nodi, os caiff y cyfryw ddogfennau eu cynhyrchu ar wahân, bod rhaid iddynt gynnwys brawddeg i ddweud bod y daflen hefyd ar gael yn yr iaith arall. Fodd bynnag, daeth i'n sylw yn ddiweddar nad yw rhai dogfennau yn cydymffurfio â'r Safonau, felly bydd y canllawiau yn cael eu hailgyhoeddi i atgoffa'r staff o'r angen i gynnwys y datganiad hwn.
- 2.5.3 Os caiff dogfennau cyhoeddus eu hargraffu ar wahân, mae'r Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.
- 2.5.4 Mae agendâu a chofnodion yr Awdurdod yn cael eu llunio'n ddwyieithog yn unol â Safon 41(a), ac mae'r holl ddeunyddiau ar gyfer cynadleddau neu seminarau yn cael eu llunio'n ddwyieithog yn unol â Safon 41(b).
- 2.5.5 Mae cylchgrawn Coast to Coast yr Awdurdod wedi ennill gwobr yn y categori 'Cyhoeddiad Gorau' yng Ngwobrau PRide CIPR Cymru 2021.

2.6 **Y wefan, apiau a'r cyfryngau cymdeithasol (Safonau 52 a 55 – 59)**

- 2.6.1 Gall defnyddwyr gwefan yr Awdurdod ddewis yr iaith a ffeirir ganddynt drwy glicio'r botwm togl, neu defnyddio'r URL perthnasol (www.arfordirpenfro.cymru / www.pembrokeshirecoast.wales).

Y nifer fu'n edrych ar ein gwefan fesul blwyddyn	Cymraeg	Saesneg
2021/22	5,583	1,096,366
2020/21	12,328	802,982
2019/20	141,385** (12,715)	1,278,512** (1,247,188)
2018/19	10,744	1,275,159
2017/18	11,515*	980,769*
2016/17	12,565	1,077,475

* Bu cyfnod fis Hydref 2017 pan oedd problem gyda Google Analytics, felly nid yw'r ffigur hwn yn dangos y ffigurau yn eu crynswth.

** Bu cynnydd sylweddol ac anarferol na ellir ei egluro yn y nifer fu'n ymweld â'n gwefan ar Fai 26 a 27 2019, oedd i gyfrif am nifer enfawr o dudalennau yr edrychwyd arnynt (128,670 dros y deuddydd dan sylw). Y ffigurau mewn cromfachau yw cyfanswm yr ymweliadau heb y data am y deuddydd hyn.

- 2.6.2 Mae'r holl apiau a lunnir gan yr Awdurdod yn ddwyieithog.
- 2.6.3 Mae cyfrifon Facebook a Twitter yr Awdurdod ar gael yn ddwyieithog.
- 2.6.4 Gwnaed ymdrech ar y cyd yn ystod 2021/22 i hysbysu aelodau'r cyhoedd am sefyllfa COVID-19 a pha gyfyngiadau oedd yn effeithio ar waith yr Awdurdod, yn enwedig o ran mynediad i'r Parc Cenedlaethol. Roedd pob hysbysiad/fideo/trydariad ac ati, yn ddwyieithog. Llwyddodd Tîm Cyfathrebu yr Awdurdod i gyrraedd rownd derfynol Gwobrau Rhagoriaeth CIPR y DU 2021 a Gwobrau PRide CIPR Cymru 2021 am ei waith cyfathrebu allan o'r argyfwng COVID-19.

2.7 **Peiriannau hunan-wasanaeth (Safon 60)**

- 2.7.1 Mae'r holl beiriannau talu ac arddangos yn y meysydd parcio yn ddwyieithog.

2.8 **Arwyddion a Hysbysiadau (Safonau 61 – 63 a 69 – 70)**

- 2.8.1 Mae arwyddion yr Awdurdod yn ddwyieithog, er nad y Gymraeg sydd flaenaf bob tro o reidrwydd. Pan gaiff yr arwyddion hyn eu hadnewyddu, byddant yn cydymffurfio â'r Safonau yn yr ystyr y bydd y Gymraeg yn flaenaf; fodd bynnag, bydd unrhyw arwyddion newydd a gaiff eu codi yn cydymffurfio â'r Safonau perthnasol.
- 2.8.2 Mae'r holl Hysbysiadau swyddogol yn cael eu cyhoeddi neu eu harddangos yn ddwyieithog. Os caiff Hysbysiadau swyddogol eu hargraffu ar wahân, caiff y Gymraeg a'r Saesneg eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.

- 2.9 **Gwasanaethau dderbynfa (Safonau 64 – 70)**
- 2.9.1 O'r pum aelod o staff (tri llawn amser cyfatebol) ym mhrif dderbynfa'r Awdurdod, mae dwy yn gallu siarad Cymraeg yn rhugl ac mae dwy wedi bod ar gyrsiau Cymraeg sylfaenol. Os na all y staff ddelio â galwad eu hunain, maent yn cyfeirio'r galwr at gydweithiwr Cymraeg yn ddi-oed.
- 2.9.2 Mae gan staff y dderbynfa yn Oriol y Parc, Castell Henllys, Canolfan Ymwelwyr Trefdraeth a Chastell Caeriw sgiliau iaith Gymraeg a gallant gynnig gwasanaeth yn Gymraeg o'r dechrau'n deg.
- 2.9.3 Mae posteri 'Iaith Gwaith' i'w weld ym mhob un o dderbynfeydd yr Awdurdod, ac mae staff sy'n siarad Cymraeg yn gwisgo cortyn neu fathodyn i hysbysu'r cyhoedd fod gwasanaeth Cymraeg ar gael. Mae dysgwyr Cymraeg yn gwisgo laniardau sy'n dwyn y geiriau "Dw i yn dysgu Cymraeg".
- 2.10 **Grantiau (Safonau 71 – 75)**
- 2.10.1 Mae'r Awdurdod yn gweinyddu'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy. Mae'r nodiadau canllaw a'r ffurflen gais ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff gohebiaeth ei hateb yn newis iaith yr ymgeisydd. Mae unrhyw ddeunydd hyrwyddo ar gael naill ai'n ddwyieithog neu yn Gymraeg ac yn Saesneg a chaiff y ddwy iaith eu trin yn gyfartal o ran ffont, maint, fformat ac ati.
- 2.10.2 Roedd y polisi grantiau yn y broses o gael ei ddiwygio yn ystod y cyfnod adrodd i gynnwys gofyniad i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg fel rhan o'r meini prawf ar gyfer dyfarnu grant.
- 2.11 **Tendrau (Safonau 76 – 80)**
- 2.11.1 Mae gwahoddiadau i dendro yn cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan GwerthwchiGymru, a chynhwysir y geiriad a ganlyn: "Croesewir tendrau yn Gymraeg neu yn Saesneg. Ni ymdrinnir â thendr a gyflwynir yn Gymraeg yn llai ffafriol na thendr a gyflwynir yn Saesneg".
- 2.12 **Hunaniaeth gorfforaethol (Safon 83)**
- 2.12.1 Mae hunaniaeth gorfforaethol yr Awdurdod wedi bod yn ddwyieithog ers iddo gael ei sefydlu. Mae'r holl bapur pennawd, cardiau busnes a chardiau adnabod yn ddwyieithog, gan gynnwys ei arwyddion a'i gerbydau.
- 2.13 **Cyrsiau addysg (Safonau 84 ac 86)**
- 2.13.1 Nid yw'r Awdurdod yn cynnal cyrsiau addysg fel y cyfryw. Mae'r rhaglen gweithgareddau a digwyddiadau ar gyfer 2021/22 yn darparu gweithgareddau/digwyddiadau drwy gyfrwng y Gymraeg ac mae pob ysgol/grŵp sy'n cymryd rhan yn gallu gwneud hynny yn eu dewis iaith.
- 2.13.2 Cynhaliwyd 226 o sesiynau gydag ysgolion yn ystod y cyfnod adrodd, gyda 43 ohonynt (19%) yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, sef cynnydd o 8% ar y cyfnod adrodd blaenorol. Roedd 1,231 o blant a phobl ifanc wedi mynychu'r sesiynau hyn, sef cynnydd o 569% ar y cyfnod adrodd blaenorol. (NODIR: Roedd y cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio ar ddarpariaeth addysg yr Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, oedd wedi cael effaith ar nifer y sesiynau a gynhaliwyd yn 2020/21.)

- 2.13.3 Cynhaliwyd 1,041 o weithgareddau a digwyddiadau (gan gynnwys sesiynau gwirfoddoli) yn ystod y cyfnod adrodd, gyda 37 ohonynt (3.6%) yn cael eu cynnal drwy gyfrwng y Gymraeg, sef cynnydd o 0.6% ar y cyfnod adrodd blaenorol. Roedd 414 o bobl wedi mynychu'r sesiynau hyn, sef cynnydd o 602% ar y cyfnod adrodd blaenorol. (NODIR: Roedd y cyfyngiadau COVID-19 wedi effeithio ar ddarpariaeth gweithgareddau a digwyddiadau'r Awdurdod yn ystod y cyfnod adrodd blaenorol, oedd wedi cael effaith ar nifer y sesiynau a gynhaliwyd yn 2020/21.)
- 2.13.4 Roedd 34 wedi mynychu'r sesiynau Dished y Dysgwyr a gynhaliwyd yng Nghastell Henllys. Hefyd cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau dwyieithog ar y safle. Mae'r siop yng Nghastell Henllys hefyd wedi cynyddu nifer y llyfrau i ddysgwyr Cymraeg sydd ar gael yno yn ogystal â chynnig Siocled Cymraeg i Ddysgwyr. Yn ystod y cyfnod adrodd, defnyddiwyd y tipi yng Nghastell Henllys hefyd gan Cymraeg i Blant Penfro ar gyfer sesiynau Stori a Chân.
- 2.13.5 Roedd Diwrnod Archaeoleg 2021 wedi'i gynnal unwaith eto ar Zoom oherwydd y cyfyngiadau COVID-19 fel bod pob cyfrannwr yn gallu cymryd rhan yn Gymraeg neu yn Saesneg.
- 2.14 **Parcmyn Haf**
- 2.14.1 Penodwyd pedwar Parcmon Haf yn ystod tymor yr haf 2021, gyda dau ohonynt yn ddwyieithog. Drwy gydweithio'n agos, roedd yr Awdurdod yn gallu cynnig gwasanaeth dwyieithog drwy gael presenoldeb dros dro ar y traethau, yn ein Canolfannau a lleoliadau eraill o gwmpas y Parc Cenedlaethol i roi gwybodaeth, cynnal gweithgareddau a chynnig cyngor. Roedd yr adnoddau ysgrifenedig i gyd yn ddwyieithog.

3. SAFONAU LLUNIO POLISI (SAFONAU 88 – 97)

- 3.1 **Llunio polisïau, eu diwygio neu eu hadolygu (Safonau 88 – 90)**
- 3.1.1 Nid oes polisïau ychwanegol i'r Cynllun Datblygu Lleol 2 na'r Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol wedi'u cyflwyno yn ystod y cyfnod adrodd.
- 3.2 **Ymgynghori â'r cyhoedd (Safonau 91 – 93)**
- 3.2.1 Ymgynghorwyd ar 18 dogfen Canllawiau Cynllunio Atodol, oedd yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith gan eu bod yn atodol i'r Cynllun Datblygu Lleol 2 ac felly yn ddarostyngedig i'r un gofynion o ran asesu effaith:
- Effeithiau cronol tyrbinau gwynt – canllawiau ar y cyd gyda Chyngor Sir Penfro;
 - Glo – ansefydlogrwydd tir;
 - Colli gwestai a thai gwestai;
 - Safleoedd geamrywiaeth o bwys rhanbarthol;
 - Diogelu parthau mwynau;
 - Ardal Gadwraeth Angle;
 - Ardal Gadwraeth Caerfarchell;
 - Ardal Gadwraeth Ynys Bŷr;
 - Ardal Gadwraeth Little Haven;

- Ardal Gadwraeth Maenorbŷr;
- Ardal Gadwraeth Trefdraeth;
- Ardal Gadwraeth Porthglew;
- Ardal Gadwraeth Porthgain;
- Ardal Gadwraeth Saundersfoot;
- Ardal Gadwraeth Solfach;
- Ardal Gadwraeth Tyddewi;
- Ardal Gadwraeth Dinbych-y-pysgod;
- Ardal Gadwraeth Trefin.

3.2.2 Hefyd ymgynghorwyd ar y canlynol, a chydymffurfiwyd â'r Safonau Iaith:

- Amcanion llesiant.

3.2.3 Ymgynghorwyd ar ddau Gynllun Gweithredu ar gyfer Cynllun Rheoli'r Parc Cendlaethol, ond roedd y ddau wedi'u cyfyngu i nifer o gysylltiadau sydd wedi'u sefydlu y mae'r Awdurdod yn gohebu â hwy yn Saesneg. Mae'r tri Cynllun Gweithredu obry wedi'u cyfieithu:

- Adfer natur;
- Iechyd a lles;
- Rheoli hamdden ac ymwelwyr yn gynaliadwy.

3.3 **Ymchwilio i bolisi (Safonau 95 – 97)**

3.3.1 Comisiynwyd dwy eitem o waith ymchwil (ar Ganllawiau coed a choetiroedd ac ar astudiaeth dichonoldeb ynghylch dynodiad Gwarchodfa Awyr Dywyll yn Sir Benfro) yn ystod y cyfnod adrodd. Cafodd y gwahoddiadau i dendro eu cyhoeddi'n ddwyieithog ar wefan GwerthwchiGymru. Cafodd ymgynghoriad y canllaw coed a choetiroedd ei gyfyngu i nifer o gysylltiadau sydd wedi'u sefydlu y mae'r Awdurdod yn gohebu â hwy yn Saesneg.

4. SAFONAU GWEITHREDU (SAFONAU 98 – 144)

4.1 **Dogfennau yn ymwneud â chyflogaeth (Safonau 99 – 104)**

4.1.1 Gofynnwyd i'r holl staff a ydynt yn awyddus i gael dogfennau sy'n ymwneud â'u gwaith yn Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

4.2 **Polisiâu adnoddau dynol (Safonau 105 – 111)**

4.2.1 Mae'r holl bolisiâu staffio y mae'r Safonau'n ymwneud â hwy ar gael yn ddwyieithog.

4.3 **Gweithdrefnau cwyno/disgyblu (Safonau 112 – 119)**

4.3.1 Mae'r staff yn gwybod y gallant gwyno a/neu ymateb i'r broses ddisgyblu/cwynion yn eu dewis iaith.

4.4 **Meddalwedd iaith Gymraeg (Safon 120)**

4.4.1 Mae meddalwedd iaith Gymraeg, gan gynnwys rhaglenni *Cysgeir* a *Cysill* ar gael i'r holl staff.

4.5 **Y fewnwyd (Safonau 122 – 126)**

4.5.1 Mae'r testun ar hafan mewnwyd yr Awdurdod yn ddwyieithog.

4.6 **Asesu sgiliau iaith Gymraeg y staff (Safon 127)**

4.6.1 Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system adnoddau dynol yr Awdurdod. Mae'r lefelau sgiliau a ddefnyddiwyd bellach yn seiliedig ar y fframwaith cymhwysedd iaith (CEFR):

Lefel

- Mynediad
- Sylfaen
- Canolradd
- Uwch
- Hyfedr

4.6.2 Ar y 31 o Fawrth 2021, roedd yr Awdurdod yn cyflogi 167 o staff. Roedd 41% (cynnwys o 3%) wedi cwblhau eu data sgiliau iaith:

Lefel	Nifer	Canran
Mynediad	34	20.4
Sylfaen	4	2.4
Canolradd	11	6.6
Uwch	3	1.8
Hyfedr	16	9.8

4.6.3 Bernir bod yr Awdurdod, ar y cyfan, yn gallu cyflawni ei rwymedigaethau i'r cyhoedd o ran darparu gwasanaeth dwyieithog. Mae gan yr Awdurdod drosiant isel iawn o staff, a phan fydd swyddi yn dod yn wag, fe'u hasesir o ran gofynion ieithyddol (gweler paragraff 4.9). Yn y cyfamser, anogir staff i gofrestru ar gyrsiau Cymraeg i ddatblygu neu i wella eu sgiliau iaith Gymraeg.

4.6.4 Mae 18 Aelod yn gwasanaethu ar yr Awdurdod Parc Cenedlaethol. O'r rhain:

- mae 7 â sgiliau llafar sylfaenol ac 8 yn gallu darllen ac ysgrifennu negeseuon sylfaenol;
- mae 0 â sgiliau sgwrsio sylfaenol bob dydd, tra bod 0 yn gallu darllen ac ysgrifennu negeseuon bob dydd;
- mae 3 yn siarad Cymraeg yn rhugl;
- gallai 2 sgwrsio yn rhugl mewn sefyllfa sy'n ymwneud â gwaith, a darllen ac ysgrifennu gohebiaeth swyddogol;
- mae 2 heb unrhyw sgiliau llafar yn Gymraeg, tra bod 3 heb unrhyw sgiliau darllen/ysgrifennu yn Gymraeg.

4.7 **Cyrsiau iaith Gymraeg (Safonau 130 – 133)**

4.7.1 Cynhelir adolygiadau o berfformiad gyda'r holl staff, lle mae'r angen (neu'r cyfle) i ddysgu Cymraeg yn cael ei nodi. Cefnogir unrhyw aelod o staff sy'n awyddus i fynychu cwrs iaith Gymraeg yn ystod oriau gwaith.

4.8 **Llofnod neu logo e-bost (Safonau 134 – 135)**

4.8.1 Rhoddwyd cyfarwyddyd i'r holl staff ynghylch llofnodion e-bost a negeseuon allan o'r swyddfa.

4.9 **Asesu gofynion ieithyddol ar gyfer swyddi gwag (Safon 136)**

4.9.1 Pan fydd disgrifiad swydd yn cael ei chreu neu ei diwygio, mae angen i reolwyr asesu gofynion ieithyddol y swydd gan ddefnyddio'r fframwaith iaith a fabwysiadwyd gan yr Awdurdod. Defnyddir y ffactorau a ganlyn, ynghyd â'r fframwaith iaith, i bennu lefel y sgiliau sy'n ofynnol ar gyfer y swydd:

(a) A fydd deiliad y swydd yn gweithio mewn maes lle mae angen darparu gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg?

(b) A yw'r Awdurdod yn gallu darparu'r gwasanaeth hwn yn Gymraeg ar hyn o bryd?

4.9.2 Os mai 'ydy' yw'r ateb i (b), rhaid i'r rheolwr esbonio sut y mae'r Awdurdod yn darparu'r gwasanaeth drwy gyfrwng y Gymraeg. Os mai 'ydy' yw'r ateb i (a) a 'nac ydy' yw'r ateb i (b), rhaid hysbysebu'r swydd yn un lle mae'r Gymraeg yn hanfodol, a dylid nodi lefel y sgiliau iaith sydd eu hangen.

4.9.3 Nodir y gofynion hyn ar y ffurflen Cais i Lenwi Swydd a gyflwynir i Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod i'w chymeradwyo.

4.10 **Hysbysebu swyddi (Safonau 136A, 137 a 137B)**

4.10.1 Hysbysebir pob swydd wag yn ddwyieithog. Gall unrhyw un sydd â diddordeb mewn gwneud cais am swydd gyda'r Awdurdod gofrestru ar gyfer rhybuddion am swyddi yn eu dewis iaith.

4.11 **Ffurflenni ymgeisio (Safonau 137A – 140)**

4.11.1 Mae'r Awdurdod wedi cyflwyno proses ymgeisio ar-lein sydd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

4.11.2 Os yw'r ymgeisydd yn dymuno cael ei gyfweld yn Gymraeg, bydd y panel cyfweld ond yn cynnwys swyddogion sy'n siarad Cymraeg. Os yw'r swydd a hysbysebir yn gofyn am sgiliau Cymraeg ond nad yw'r ymgeisydd – er ei fod wedi nodi ei fod yn medru'r Gymraeg – yn dymuno cael ei gyfweld yn Gymraeg, mae gweithdrefn wedi'i rhoi ar waith i brofi lefel gallu'r ymgeisydd i siarad Cymraeg cyn y cyfweiliad.

4.12 **Arwyddion a godir yn y gweithle (Safonau 141 – 143)**

4.12.1 Polisi'r Awdurdod yw bod pob arwydd yn ddwyieithog, gyda'r Gymraeg wedi'i chynnwys yn y fath fodd fel ei bod yn debygol o gael ei darllen gyntaf. Mae rheolwyr y Dderbynfa/Canolfannau wedi cael canllawiau i sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r Safonau hyn.

4.13 **Cyhoeddiadau ar gyfarpar sain yn y gweithle**

4.13.1 Nid yw'r Awdurdod yn defnyddio cyfarpar sain yn y gweithle.

5. SAFONAU HYBU (SAFONAU 145 – 146)

5.1 **Strategaeth bum mlynedd ar gyfer y Gymraeg**

- 5.1.1 Mae'r Awdurdod wedi cyhoeddi ei Strategaeth iaith Gymraeg dros gyfnod o 5 mlynedd, a bydd y Pwyllgor Archwilio ac Adolygu Gwasanaethau Corfforaethol yn monitro'r camau a nodir yn y strategaeth.
- 5.1.2 Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn annog aelodau o'r cyhoedd yn ei Bwyllgor Rheoli Datblygu i annerch y Pwyllgor yn Gymraeg os dyna yw ei dymuniad.

6. SAFONAU CADW COFNODION (SAFONAU 147 – 154)

6.1 **Cwynion a gafwyd (Safonau 147 – 149)**

- 6.1.1 Ni dderbyniodd yr Awdurdod unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod adrodd.

6.2 **Sgiliau iaith Gymraeg (Safon 151)**

- 6.2.1 Gofynnwyd i'r holl staff nodi eu sgiliau iaith Gymraeg ar system adnoddau dynol yr Awdurdod (gweler 4.6.2).

6.3 **Cyrsiau hyfforddi (Safonau 152)**

- 6.3.1 Anogir pob aelod o'r staff i ddysgu Cymraeg, ac roedd 41% o'r gweithlu wedi cwblhau cyrsiau ar-lein Cymraeg Gwaith yn ystod y cyfnod adrodd, tra bod 10% arall ar y gweill.

6.4 **Asesu sgiliau iaith Gymraeg ar gyfer swyddi newydd neu wag (Safon 153)**

- 6.4.1 Rhaid i bob cais i lenwi swyddi newydd neu wag gael ei ystyried gan Dîm Arweinyddiaeth yr Awdurdod (gweler 4.9 uchod). Caiff yr ystadegau eu cofnodi ar system rheoli perfformiad yr Awdurdod a'u hadrodd i'r Pwyllgor Adolygu Gwasanaethau Archwilio a Chorfforaethol a'r Pwyllgor Adolygu Gweithredol.

6.5 **Catgoreiddio swyddi newydd neu wag (Safon 154)**

- 6.5.1 Cafodd 50 o swyddi eu hysbysebu yn ystod y cyfnod adrodd. Roedd 5 yn y categori Cymraeg yn hanfodol, 9 yn y categori Cymraeg yn ddymunol, a 2 yn y categori Cymraeg yn fanteisiol.

7. SAFONAU ATODOL (SAFONAU 155 – 175)

- 7.1 Mae copi o'r Hysbysiad Cydymffurfio â gyflwynwyd i'r Awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg i'w weld ar wefan yr Awdurdod.
- 7.2 Mae dogfen "Safonau'r Gymraeg: Sylwadau a Chwynion" ar gael ar wefan yr Awdurdod. Yn y ddogfen honno, rhestrir y Safonau y mae'n rhaid i'r Awdurdod gydymffurfio â hwy, ynghyd â'r broses a ddilynir os bydd rhywun yn gwneud cwyn i'r Awdurdod am fethu yn y ddyletswydd honno.

8. MONITRO CYDYMFFURFIAETH

- 8.1 Prif Weithredwr yr Awdurdod, yn y pen draw, sy'n gyfrifol am weithredu a monitro Safonau'r Gymraeg. Fodd bynnag, mae unrhyw weithredu sy'n ymwneud â'r Safonau o ddydd i ddydd wedi'i ddirprwyo i'r Rheolwr Gwasanaethau Gweinyddol a Democrataidd. Hefyd, mae pob Cyfarwyddwr, Pennaeth Gwasanaeth ac Arweinydd Tîm yn gwbl ymwybodol o oblygiadau'r Safonau.
- 8.2 Caiff yr Adroddiad Monitro Blynyddol ei gyflwyno i'r Awdurdod i'w gymeradwyo cyn cael ei gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg.